PET(4) WPI 27
Y Pwyllgor Deisebau

Ymgynghoriad ar ddeiseb P-03-262 Academi Heddwch Cymru
Ymateb gan Tudur Dylan Jones

**tudur dylan jones**

[redacted]

Annwyl Gyfaill

**Gair byr i gefnogi sefydlu Academi Heddwch yng Nghymru.**

Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae pawb yn sylweddoli nad oes modd mynd ati i wario arian yn ofer a gwastraffus. Mae'r holl wario ar filitareiddio Cymru a'r DU yn anghynaladwy. Mae angen sylweddoli bod ffordd arall, rhatach o lawer i sicrhau heddwch, sef datblygu ethos llai ymosodol, ac ethos fydd yn y pen draw yn sicrhau na fydd angen gwario'n ofer ar arfau. Bydd sefydlu Academi Heddwch yng Nghymru yn cam pwysig tuag at y nod hwn. Byddai gwario ond degfed ran o gyllideb amddiffyn yn sicrhau heddwch yn llawer cynt na gwaio biliynau ar arfau. Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos ei bod ar flaen y gad yn y DU mewn pernderfyniadau e.e. codi arian am fagiau plastig, bwriadu gwahardd ysmygu mewn ceir. Mae parch gan bobl at Lywodraeth sy'n cymryd y cam cyntaf mewn materion o egwyddor.
Mae gwir angen i Gymru ddangos ei bod yn wlad sy'n credu mewn heddwch , a pha ffordd well o wneud hyn na thrwy sefydlu Academi Heddwch.

Diolch yn fawr

T Dylan Jones

Tudur Dylan Jones